**Hysbysiad Preifatrwydd:**
**Taliad Arbennig i Weithwyr Gofal Cymdeithasol**
**£500**

Yn unol â phenderfyniad diweddar Llywodraeth Cymru i ddyfarnu swm o £500 i weithwyr cymwys am eu gwaith yn ystod pandemig Covid-19, gofynnwyd i awdurdodau lleol weinyddu'r taliadau. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i sefydliadau sy'n cyflogi staff cymwys rannu gwybodaeth â ni er mwyn sicrhau bod pob unigolyn cymwys yn derbyn yr arian y mae ganddynt hawl iddo. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi sut yr ydym yn bwriadu prosesu data personol er mwyn cyflawni hyn. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y cynllun drwy ddilyn y ddolen isod:

https://gov.wales/social-care-workforce-special-payment-scheme#section-47555

## Y dibenion y byddwn yn defnyddio'r data personol y gofynnwyd amdano

Bydd y wybodaeth y gofynnir amdani yn cael ei defnyddio i weinyddu'r taliad o £500 i ofalwyr yn unol â'r hyn a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich gwybodaeth yw bod y prosesu yn angenrheidiol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol.

## Beth os na fyddwch yn darparu data personol?

Os na fyddwch yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom pan fyddwn yn gofyn amdani, gall hyn olygu na fyddwn yn gallu darparu'r cyllid ar gyfer y grant o £500 i weithwyr cymwys

## Pa fath o wybodaeth ydym ni'n ei defnyddio?

Mae angen y data personol canlynol arnom er mwyn gweinyddu'r taliad:

Rhif Yswiriant Gwladol
Enw
Rhif cyfeirnod asiantaeth (os yn berthnasol)

Cost YG y Cyflogwr
Cost Pensiwn y Cyflogwr

## Ydyn ni'n defnyddio gwybodaeth a dderbynnir o ffynonellau eraill?

I weinyddu'r taliad, rydym yn casglu data personol yn uniongyrchol oddi wrth eich sefydliad chi yn unig ac nid ydym yn cael gwybodaeth o unrhyw ffynhonnell arall. Fodd bynnag bydd gwiriadau dilysu yn cael eu cynnal er mwyn lleihau hyd yr eithaf y perygl o dwyll neu golledion.

## Trosglwyddo gwybodaeth dramor

Ni fydd y wybodaeth y gofynnir amdani yn cael ei throsglwyddo y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

## Gyda phwy y gall eich gwybodaeth gael ei rhannu (yn fewnol ac yn allanol)?

Nid oes angen rhannu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gyda Llywodraeth Cymru er mwyn i'r taliad allu digwydd. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy roi gwybod i Lywodraeth Cymru sawl unigolyn o fewn y Sir sy'n gymwys i dderbyn y taliad.

Gellid cymharu darn o rif Yswiriant Gwladol (YG) â rhestr feistr i ddibenion gwirio.

Ni fydd y wybodaeth y gofynnir amdani yn cael ei rhannu â sefydliadau allanol ac eithrio os bydd angen gwneud hynny o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Lle mae'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu'r wybodaeth yn ôl y gyfraith
- Lle bo angen datgelu'r wybodaeth i atal neu ganfod trosedd.

## Cadw

Bydd yr holl ddata’n cael ei gadw am 7 mlynedd yn unol â’r atodlen cadw gwybodaeth gorfforaethol.